

Manyleb y Person Prif Swyddog FCGLISFf

Sgiliau ac Ymddygiad Hanfodol: Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos:

- Arweinyddiaeth weledigaethol dan arweiniad gwerthoedd, ac yn gallu gosod cyfeiriad clir ac arwain, ysgogi ac ysbrydoli eraill.
- Meddwl strategol a dadansoddol, ac yn gallu trosi blaenoriaethau sefydliadol yn gynlluniau a chanlyniadau effeithiol.
- Dull mentrus yn canolbwyntio ar ddatrysiadau, ac yn gallu ysgogi perfformiad, arloesedd a gwelliant parhaus.
- Deallusrwydd emosiynol a hunanymwybyddiaeth, gan ddangos empathi, barn gadarn a'r gallu i greu diwylliant sefydliadol cadarnhaol, cynhwysol.
- Cydnerth a'r gallu i addasu, ac yn gallu arwain yn hyderus yn wyneb newid, her ac ansicrwydd.
- Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu rhagorol, ac yn gallu ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.
- Sgiliau arwain a dirprwyo effeithiol, gan rymuso cydweithwyr wrth gynnal atebolrwydd priodol.
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol ac arweinyddiaeth fyfyrion, gan fod yn agored i ddysgu ac adborth.
- Gallu cryf i feithrin perthnasoedd dibynadwy a chynhyrchiol ledled y Trydydd Sector a gyda chyrrff cyhoeddus, cyllidwyr, cymunedau a rhanddeiliaid eraill.
- Ymrwymiad cryf i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, wedi'i adlewyrchu mewn ymarfer arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol.
- Dealltwriaeth o ddiwylliant, cymunedau a chyd-destun dwyieithog Cymru ac yn.
empathig iddynt

Gwybodaeth a Phrofiad Hanfodol: Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus yr isod:

- Gradd neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol, neu brofiad perthnasol sylweddol ar lefel uwch.
- Profiad sylweddol o arweinyddiaeth neu reoli, yn ddelfrydol o fewn y Trydydd Sector neu amgylchedd cysylltiedig agos, gan gynnwys profiad o weithio'n effeithiol gyda Bwrdd neu gorff llywodraethu.
- Profiad o arwain a rheoli newid sefydliadol, gan gynnwys cefnogi pobl trwy gyfnodau o ddatblygiad neu drawsnewid.
- Profiad o reoli, datblygu a chefnogi staff, gan gynnwys rheoli perfformiad, arfarnu a datblygiad proffesiynol.
- Llwyddiant blaenorol o sicrhau a/neu reoli cyllid allanol, gan gynnwys grantiau, contractau neu wasanaethau a gomisiynwyd.
- Profiad rheoli a chynllunio ariannol cryf, gan gynnwys cyllidebu, monitro a chyfrannu at gynaliadwyedd sefydliadol.
- Dealltwriaeth gref o'r Trydydd Sector, gan gynnwys y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu mudiadau gwirfoddol a chymunedol.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisi cyhoeddus ac amgylchedd y sector cyhoeddus yng Nghymru, ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Profiad o ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda rhanddeiliaid o wahanol sectorau a mudiadau.

Gwybodaeth a Phrofiad sy'n Ddymunol: Byddai'n fanteisiol cael y canlynol:

- Cymhwyster ôl-raddedig, proffesiynol neu arweinyddiaeth perthnasol.

- Profiad o reoli gwasanaethau neu brosiectau sy'n cefnogi pobl neu gymunedau sy'n agored i niwed.
- Sgiliau Cymraeg, neu ymrwymiad i ddatblygu gallu yn y Gymraeg sy'n briodol i'r rôl.
- Profiad o weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a/neu gyrff cyhoeddus eraill.
- Profiad o ddatblygu cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Gwybodaeth neu brofiad o presgripsiynu cymdeithasol a dulliau cymunedol o ran iechyd a lles.
- Profiad ledled meysydd gweithredol allweddol mudiad, gan gynnwys ymarfer adnoddau dynol a chyflogaeth, TG a rheoli data, caffael, gwasanaethau busnes, cyfathrebu a marchnata, a rheoli prosiectau.